OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 371 (Cy.37)

TAI, CYMRU

Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2008

Gwnaed - - - -	*14 Chwefror 2008*
Yn dod i rym - -	*28 Chwefror 2008*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 156(4) o Ddeddf Tai 1985(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy i'r graddau y maent yn arferadwy yng Nghymru(**2**):

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Tai (Hawl i Brynu) (Blaenoriaeth Arwystlon) (Cymru) 2008 a daw i rym ar 28 Chwefror 2008.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Cyrff penodedig

2. Pennir y cyrff canlynol yn sefydliadau benthyca cymeradwy at ddibenion adran 156(**3**) o Ddeddf Tai 1985—

(a) Accord Mortgages Limited (Cwmni Rhif 02139881);

(b) Beacon Homeloans Limited (Cwmni Rhif 05304252);

(c) Morgan Stanley Bank International Limited (Cwmni Rhif 03722571).

(**1**) 1985 p.68; diwygiwyd adran 156(4) gan Ddeddf Tai 1988 p.50, Atodlen 17, paragraff 106 a chan Ran XIII o Atodlen 19 i Ddeddf Tai 1996 p.52.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol a geir yn Neddf Tai 1985 o ran Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672 erthygl 2, Atodlen 1 iddo). Cafodd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru eu breinio yng Ngweinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 p.32 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(**3**) Diwygiwyd adran 156 hefyd gan Ddeddf Tai a Chynllunio 1986 p.63, Atodlen 5, paragraff 1(2) a (5) a chan adran 120(3) a (4) o Ddeddf Diwygio Cyfraith Lesddaliad, Tai a Datblygu Trefol 1993 p.28.